12fed o Fehefin 2019

Annwyl Rieni/ Gwarchodwyr,

I gyd-fynd ag un o flaenoriaethau'r ysgol eleni sef i ddatblygu ein darpariaeth ar gyfer y maes dysgu newydd sef Iechyd a Lles, byddwn yn cynnal Wythnos Lles ar gyfer holl ddisgyblion yr ysgol o'r **1af o Orffennaf tan y 5ed o Orffennaf 2019.**

Bwriad yr wythnos yw rhoi cyfleodd newydd a chyffrous i'r disgyblion er mwyn iddynt fagu hyder a chodi ymwybyddiaeth o'r 'Pum Ffordd at Les.'

Mi fydd y disgyblion yn elwa drwy ddysgu nifer o sgiliau hanfodol a chymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau newydd a diddorol.

O ddydd Llun hyd at ddydd Mercher, bydd y disgyblion yn cwblhau 7 gweithgaredd gwahanol megis gweithgareddau corfforol a chreadigol ac yna ar ddydd Iau a Gwener bydd Eisteddfod yr Ysgol yn cael ei chynnal fel rhan o'r wythnos lles.

Yn ystod y tridiau cyntaf sef y 1af, 2ail a 3ydd o Orffennaf, gofynnwn yn garedig i ddisgyblion ddod i'r ysgol mewn naill ai joggers, leggings neu siorts a threinars, gan barhau i wisgo crys-t a siwmper yr ysgol am y tridiau.

Yn ychwanegol, bydd angen cot law, eli haul, het haul a photel dŵr os gwelwch yn dda.

Ar y 4ydd a 5ed o Orffennaf, gofynnwn yn garedig i'r disgyblion wisgo dillad sy'n cynrychioli lliw eu llysoedd ar gyfer yr Eisteddfod (Bydd mwy o wybodaeth yn dilyn am hyn)

Bydd cyfleoedd hefyd i ddisgyblion ac oedolion gymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol o **3:30 y.h. i 4:15 y.h.** Mae'n hanfodol i bob plentyn sy'n aros fod o dan ofal rhaint neu gofalwr cyfrifol yn ystod y sesiynau er mwyn cwblhau'r gweithagreddau ar y cyd.

Mae amserlen wedi ei hatodi ar gyfer y gweithgareddau ar ôl ysgol ac mae croeso mawr i chi aros a chymryd rhan yn gweithgaredd o'ch dewis. Bydd te prynhawn arbennig yn cael ei gynnal yn neuadd yr ysgol ar nos Fercher y 3ydd o Orffennaf i godi arian at elusen o'n dewis. Edrychwn ymlaen at ei gweld yno!

Ni fydd cost ar gyfer unrhyw weithgaredd trwy gydol yr wythnos.

Rydym yn ffyddiog bydd yr wythnos yn un cofiadwy a gwerthfawr iawn i bob disgybl yma yn Ysgol Bro Alun.

Yn gywir,

Awel Watson-Smyth

12th of June 2019

Dear Parents/Guardians,

To coincide with one of our school's priorities this year, which is to develop our provision for the new learning area within the curriculum Health and Wellbeing, we will be holding a wellbeing week for all pupils in the school from the **1st July until the 5th July 2019.**

The week aims to provide new and exciting opportunities for pupils to build confidence and raise awareness of the' Five Ways to Wellbeing.'

Our pupils will learn new and essential skills and will take part in various interesting activities.

On the Monday to Wednesday of the week, each child will complete 7 different activities from physical to creative activities then on Thursday and Friday our school Eisteddfod will take place

During the first three days, 1st, 2nd and 3rd July, we ask kindly that the pupils come to school wearing joggers, leggings or shorts and trainers but to continue to wear their school's T-shirt and jumper for the three days.

In addition, all pupils will need a rain coat, sun cream, sun hat and water bottle for the activities.

On the 4th and 5th of July, we kindly ask the pupils to wear clothes that represent their house colour for the Eisteddfod. (Further information will be provided nearer to the time.

Further to this, there will be opportunities for pupils, parents and guardians to take part in afterschool activities from **3:30 p.m. to 4:15 p.m**. It is essential that every child is accompanied by a responsible adult to participate in the activities together.

A timetable is attached outlining details of the after school activities and you are welcome to choose an activity to participate in. A special afternoon tea will be held in the school hall on the evening of Wednesday 3rd to raise money for a charity of our choice. We look forward to seeing you there!

All activities throughout the week will be free of charge.

We are confident that the week will be very memorable and rewarding for all pupils here at Ysgol Bro Alun.

Yours sincerely,

Awel Watson-Smyth